OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 304

## Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2019

**Arolygiadau safle**

**21.**—(1) Caiff yr arolygydd gynnal arolygiad o'r man ar ei ben ei hun cyn ymchwiliad neu yn ystod ymchwiliad heb roi hysbysiad am fwriad yr arolygydd i'r personau sydd â hawl i ymddangos.

(2) Yn ystod ymchwiliad neu ar ôl iddo gau, caiff yr arolygydd arolygu'r man yng nghwmni'r ceisydd, unrhyw awdurdod cynllunio cymwys, ac, yn ddarostyngedig i baragraff (3), unrhyw wrthwynebydd cymwys sydd wedi dychwelyd ffurflen gofrestru yn unol â rheoliad 6(4)(a).

(3) Pan fo'r arolygydd yn arolygu'r man ar ôl i ymchwiliad gau, nid oes gan wrthwynebydd cymwys yr hawl i fynd gyda'r arolygydd ar yr arolygiad hwnnw oni bai ei fod wedi ymddangos gerbron yr ymchwiliad.

(4) Ym mhob achos pan fo'r arolygydd yn bwriadu cynnal arolygiad safle yng nghwmni eraill, rhaid i'r arolygydd gyhoeddi yn ystod yr ymchwiliad y dyddiad a'r amser y mae'r arolygydd yn bwriadu cynnal yr arolygiad hwnnw.

(5) Nid yw'r arolygydd wedi ei rwymo i ohirio arolygiad o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff (2) pan na fo unrhyw berson a grybwyllir yn y paragraff hwnnw yn bresennol ar yr adeg benodedig.